# Y Pwyllgor Busnes

## Cofnodion BC(3)05-10

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 9 Chwefror 2010
**Amser:** 08.30
**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

### Swyddogion yn bresennol

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth
Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

### 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

#### (i) BC(3)04-10 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 2 Chwefror 2010

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

### 3. Busnes i ddod

#### Busnes yr wythnos hon - BC(3)05-10(p1)

3.1 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor drefn busnes 9 a 10 Chwefror 2010.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i atal Rheolau Sefydlog er mwyn dod â'r eitemau canlynol o fusnes ymlaen ddydd Mercher 10 Chwefror:

Enwebu Archwilydd Cyffredinol Cymru gan y Cynulliad

Cynnig i ethol aelodau i bwyllgorau

#### Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)05-10(p2)

3.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf .

#### Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)05-10(p3)

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitem ganlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 10 Mawrth 2010 -**

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar 'Ariannu Seilwaith Ffyrdd' (60 munud)

3.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

### 4. Deddfwriaeth

**(i) Papur eglurhaol gan y Gweinidog ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru) - BC(3)05-10(p4a);amserlen ddarluniadol - BC(3)05-10(p4b)**

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor ar 25 Mehefin 2010 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

**(ii) Papur gan Swyddfa Ddeddfwriaeth y Cynulliad ynghylch yr opsiynau ar gyfer cyfeirio deddfwriaeth y llywodraeth sydd ar ddod at bwyllgorau deddfwriaeth - BC(3)05-10(p5)**

4.2 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur gan Swyddfa Ddeddfwriaeth y Cynulliad ynghylch yr opsiynau ar gyfer cyfeirio'r Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff a'r mesur arfaethedig sydd ar ddod mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg a gwasanaethau iechyd meddwl. Cytunodd y Pwyllgor i gyfeirio'r mesurau fel a ganlyn:

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 - Mesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru)

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 - Mesur Arfaethedig yr Iaith Gymraeg (Cymru);

LC3 - Mesur Arfaethedig ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl.

**(iii) Amserlen ar gyfer craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig:**

**Adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010 - BC(3)05-10(p6a);**

**Adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Trafnidiaeth) 2010 - BC(3)05-10(p6b);**

**Adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 ar Orchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010 - BC(3)05-10(p6c)**

4.3 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyrau gan Gadeiryddion Pwyllgorau Deddfwriaeth 2, 3 a 4 ynghylch y dyddiadau cau a roddwyd iddynt ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Gorchmynion Tai a Llywodraeth Leol, Trafnidiaeth ac Addysg yn ôl eu trefn. Nododd y Pwyllgor yr argymhellion a chytunodd i roi ystyriaeth bellach i'r mater yn wyneb adolygiad y Cwnsler Cyffredinol o'r broses ddeddfwriaethol.

### 5. Pwyllgorau

**(i) (Cais gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i gynnal cyfarfod ffurfiol ym Mrwsel ar 1 Mawrth 2010 - BC(3)05-10(p7)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais.

### 6. Busnes arall

**(i) Papur eglurhaol ynghylch atal Rheol Sefydlog 2.20 yn ystod y ddadl ar Gonfensiwn Cymru Gyfan - BC(3)05-10(p8a); Adroddiad drafft y Pwyllgor Busnes - BC(3)05-10(p8b)**

6.1 Tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**